

22 Chwefror 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Crynodeb Adroddiad Addasiadau i Dai



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



- 1 Adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yw hwn. Rydym ni'n cefnogi'r Arolygydd Cyffredinol, sy'n cadw golwg ar sut y caiff arian cyhoeddus ei wario. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar sut y mae pobl yn cael addasiadau i dai yng Nghymru.
- 2 Mae pobl yn y gymdeithas yn byw'n hwy erbyn hyn, a gallai fod ganddynt anableddau ac anghenion cymhleth hefyd. Mae angen i Lywodraeth Cymru, cynghorau a chymdeithasau tai gynllunio cartrefi sy'n helpu pobl i fyw'n annibynnol. Bydd y math iawn o dai yn golygu y gall pawb fyw bywyd iach. Bydd hyn hefyd yn golygu eu bod yn cael cyfle i gyfrannu i'r gymdeithas a'r economi. Er mwyn gwneud hyn mae angen i gyrff cyhoeddus adeiladu tai arbenigol newydd. Mae angen hefyd iddyn nhw wella'r tai yr ydym ni'n byw ynddynt ar hyn o bryd.

### Beth y mae hyn i gyd yn ei olygu

- Addasiadau i Dai: Newidiadau i helpu pobl yn eu cartrefi. Er enghraifft, rampiau, canllawiau a chyfarpar arbenigol.
- Cynghorau: Eich llywodraeth leol sy'n gweithredu gwasanaethau allweddol. Er enghraifft, addasiadau i dai, gofal cymdeithasol, yn ogystal â threfnu tai yn lleol.
- Cymdeithasau Tai: Sefydliadau dielw sy'n darparu tai fforddiadwy i bobl mewn angen.
- Cyrff Cyhoeddus: Term ar gyfer cynghorau, tai cymdeithasol a sefydliadau eraill. Un enghraifft fyddai sefydliadau ieched.

- 3 Pan wneir addasiadau, gallant helpu pobl i fyw bywyd mwy annibynnol. Byddant hefyd yn helpu i roi hyder, preifatrwydd ac urddas i bobl. Mae enghreifftiau o addasiadau yn cynnwys rampiau, estyniadau a chyfarpar arbenigol. Os yw cartref yn briodol ac wedi'i addasu, gall wella bywyd person a'i wneud yn hapus ac yn annibynnol. Mae addasiadau yn gost effeithiol i gyrff cyhoeddus. Maent hefyd yn helpu'r system gofal iechyd drwy ganiatáu i bobl fyw gartref.
- 4 Rydym wedi edrych ar gyrff cyhoeddus sy'n darparu addasiadau i dai. Rydym ni eisiau gweld pa mor dda y maent yn gweithio ac a yw'r arian yn cael ei wario mewn modd cystal â phosibl. Cynhaliwyd arolwg gennym o bobl sydd wedi cael addasiad i'w tai, gan ofyn am eu profiadau, beth oedd yn gweithio'n dda a beth y gellid ei wella. Edrychwyd ar lawer o ddata, megis:
- faint o arian sy'n cael ei wario a chan bwy;
  - ystod ac ansawdd gwybodaeth gyhoeddus; a
  - dogfennau yn ymwneud ag addasiadau i dai.

### A oeddech chi'n gwybod?

Mae oddeutu 70 o sefydliadau yn cyflawni addasiadau yng Nghymru.

- 22 o gynghorau
- 33 o gymdeithasau tai
- 13 o gyrff gofalu a thrwsio

Mae'r sefydliadau hyn yn gwario dros £60 miliwn bob blwyddyn ac yn helpu tua 32,000 o bobl.

Fe wnaethom hefyd siarad â phobl o nifer fawr o sefydliadau am eu gwaith.

- 5 Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i gasgliad. Mae pobl yn hapus â'r gwasanaethau addasiadau i dai. Ond mae hyn yn cuddio system gymhleth, adweithiol ac annheg. Nid yw'r system hon yn helpu pawb sydd angen cymorth. Daeth hefyd i'r casgliad nad yw cyrff cyhoeddus yn gwario arian mewn modd cystal â phosibl. Nid yw hyn yn cyflawni gwerth am arian.

## **Crynodeb o'r hyn a ganfuwyd gennym**

- 6 Mae'r systemau cyllido ar gyfer addasiadau yn gymhleth. Mae'r system ar gyfer cyflawni'r addasiadau hefyd yn gymhleth. Mae pobl ag anghenion tebyg yn aml yn cael gwahanol safon o wasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn amrywio yn dibynnu ar ble mae pobl yn byw a phwy sy'n darparu'r cymorth.
- 7 Mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus wedi gweld cynnydd yn y galw am addasiadau yn y blynyddoedd diweddar. Bydd mwy o bobl angen cymorth yn y dyfodol oherwydd henaint ac anabledau.
- 8 Ceir nifer o lwybrau i wneud cais am addasiadau. Mae angen i sefydliadau wneud y system yn hawdd ei defnyddio. Ond mae llawer o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai nad oes ganddynt systemau sy'n diwallu anghenion pobl. Er enghraifft, mae'n anodd darllen yr wybodaeth yn aml. Nid yw ar gael mewn print bras nac ar fersiwn sain.
- 9 Os byddant yn darparu addasiadau i dai, yna bydd pobl yn gallu aros yn eu cartrefi yn hwy. Os na wneir hyn, efallai y bydd angen i bobl fynd i'r ysbyty neu symud i gartrefi arbenigol neu gartrefi preswyl. Nid yw'n hawdd defnyddio'r broses asesu ar gyfer addasiadau a gall hyn arwain at oedi. Oherwydd hyn, nid yw pobl a sefydliadau yn gwneud gwell defnydd o addasiadau.

- 10 Mae'n rhaid i sefydliadau sy'n cyflawni'r addasiadau gydbwysu gwahanol bethau. Mae'n rhaid iddyn nhw hefyd gwblhau'r gwaith adeiladu yn gyflym. Mae'n rhaid iddyn nhw hefyd wneud yn siŵr bod gwerth am arian o ran cost ac ansawdd y gwaith. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn sicrhau bod adeiladwyr yn gwneud gwaith da. Er enghraifft, bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y gwaith adeiladu a gyflawnwyd. Byddant yn datrys problemau a nodwyd ganddynt. Ond nid yw pob sefydliad yn cadw golwg ar berfformiad yr adeiladwyr sy'n gwneud y gwaith. Nac ychwaith sut y mae adeiladwyr yn cael eu dewis, ac nid yw hyn bob amser yn ddigon da.
- 11 Mae cyrff cyhoeddus yn ymwybodol bod addasiadau yn helpu pobl i fyw bywydau annibynnol. Ond mae cyfleoedd yn bodoli i sefydliadau wneud mwy i helpu pobl. Bydd hyn yn helpu i'r arian fynd ymhellach. Er enghraifft, prin yw'r sefydliadau sy'n dda am helpu pobl i symud i gartref sydd eisoes wedi ei addasu.
- 12 Mae rhai cynghorau wedi sefydlu timau ar y cyd. Maent yn ymgynnull yr holl bobl sydd eu hangen i gyflawni addasiad er mwyn iddynt weithio gyda'i gilydd. Ond mae gormod ohonynt yn parhau i ganolbwyntio ar eu gwaith eu hunain yn unig, yn hytrach na gweithio gydag eraill i wella'r modd y gallant helpu pobl.

- 13 Gwnaethom arolwg o bobl a oedd wedi cael addasiadau i'w tai. Canfu'r arolwg bod:
- 7 o bob 10 person, a oedd wedi cael addasiad yn ddiweddar, wedi cael profiad da;
  - 9 o bob 10 person yn hapus â'r amser a gymerwyd i gyflawni eu haddasiadau;
  - bron i 9 o bob 10 person o'r farn bod y gwaith ar eu cartref wedi caniatáu iddynt wneud tasgau pob dydd;
  - pobl sy'n berchen ar eu cartrefi yn fwy bodlon ar yr ansawdd na'r rhai a oedd yn rhentu gan landlordiaid; ond
  - nid oedd gan y rhan fwyaf o bobl anabl a phobl hŷn fawr o ddewis o ran yr addasiadau a wnaed i'w cartrefi.
- 14 Mae'r broses o wirio sut y mae sefydliadau yn cyflawni addasiadau yn wael. Ceir amrywiaeth helaeth o ffynonellau ariannu ar gyfer addasiadau. Dim ond y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yr adroddir amdanynt yn gyhoeddus. Mae hyn yn ein helpu ni i weld pa mor dda y mae pethau'n gweithio. Dim ond 14% o'r bobl sy'n cael addasiadau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu rhywfaint o ddata ychwanegol, ond nid yw'r data hynny ar gael i'r cyhoedd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd barnu pa mor dda y mae sefydliadau yn gweithio. Mae'n ei gwneud yn anodd hefyd i wybod a yw addasiadau yn helpu pobl.
- 15 Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio llenwi'r bylchau yn yr wybodaeth. Mae wedi cyflwyno system newydd i gadw golwg ac adrodd ar addasiadau i dai. Bydd hyn yn helpu i lenwi rhai bylchau, ond nid yw bob amser yn adrodd ar sut y mae addasiadau wedi helpu pobl. Er bod sefydliadau yn datgan bod cydraddoldeb yn bwysig, nid oes digon o ddata i ddangos bod mynediad teg a chyfartal i bawb.

## Argymhellion

- 16 Rydym ni wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant. Bydd hyn yn sicrhau bod arian yn cael ei wario'n ddoeth ac yn helpu pobl sydd angen cymorth i gael gwasanaeth o ansawdd da. Mae'r rhai hyn yn cynnwys:
- gosod safonau da ar gyfer pob addasiad;
  - gwneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un gwasanaeth;
  - gwella'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i helpu mwy o bobl a gwario'n ddoeth;
  - darparu gwybodaeth am addasiadau i dai yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mewn fformatau hygyrch. Er enghraifft, Braille, print bras, fersiynau sain ac ieithoedd eraill;
  - sefydliadau i greu un system ceisiadau a ffurflenni syml;
  - sefydliadau i wella'r amser y mae'n ei gymryd iddynt wneud penderfyniadau a chyflawni gwaith;
  - sefydliadau i gadw golwg ar adeiladwyr a chontractwyr yn ogystal â'r gwaith y maen nhw'n ei wneud; a
  - sefydliadau i reoli perfformiad ac asesu effaith addasiadau.

Darllenwch yr adroddiad llawn gyda'r canfyddiadau manwl ar ein gwefan: [archwilio.cymru/cy/adroddiadau-a-chyhoeddiadau](http://archwilio.cymru/cy/adroddiadau-a-chyhoeddiadau)

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in  
Welsh and English.

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau  
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)